# heddwch

gaeaf 2006-7
rhif 41
am ddim (neu gyfraniad)

cnd cymru — yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear


# Dechrau da i Faslane 365!

**Os mai'ch tynged yw troedio'r palmentydd ar ran Heddlu Strathclyde, un o'r gorchwylion mwyaf diddorol a all ddod i'ch rhan y dyddiau yma yw gwisgo'r siaced felen yng nghanolfan y llynges yn Faslane ar afon Clud, yr ochr arall i'r weiren rasel o lle mae llongau tanfor Trident yn angori. Yn yr wythnosau diwethaf byddech wedi bod yn dyst i'r naill olygfa gyfoethog ar ôl y llall wrth i gymysgedd anferth o unigolion addfwyn ond penderfynol roi eu penolau yn y mynedfeydd, clymu eu hunain wrth ei gilydd yn y modd mwyaf anghyfleus gyda thiwbiau o wahanol ddefnyddiau, neu ddringo trybeddau problematig.**

Daeth yr unigolion yma mewn grwpiau o ardaloedd daearyddol (Sheffield, Assynt, Galloway, De-orllewin, Sweden a'r Ffindir), neu fudiadau neilltuol (Menywod Greenham, Menywod mewn Du, y Blaid Werdd, Beicwyr). Maent wedi mynd ati mewn gwahanol ffyrdd, nid yn unig o ran amserau blocedio gwahanol ac annisgwyl, ond gydag ystrywiau lliwgar, o wersylla yn union ar gyrion y ganolfan i berfformio can-can llorweddol. Mae'r presenoldeb gweladwy wrth y clwydi wedi bod yn fywiog, gydag arddangosiadau gwych o faneri, cerddoriaeth a dawnsio.

Mae'r heddlu wedi gosod atalfeydd torf cyffredin ar y palmentydd bob ochr i'r glwyd ogleddol ac mae hyn wedi cael ei ymestyn yn raddol rownd y corneli. Ar yr un pryd, dydyn nhw ddim wedi ceisio corlannu'r protestwyr mewn man neilltuol, ac mae wedi bod yn bosib symud o gwmpas yn weddol rydd. Maen nhw wedi cadw at eu haddewid i restio pobl (117 hyd yn hyn) sy'n mynd i mewn i'r mynedfeydd ac yn aros yno. Mae ffens Harris (ffens amgylchynol 6 troedfedd o uchder, o'r math a ddefnyddiwyd yn Gleneagles ym mhrotestiadau'r G8) o gwmpas y cylchfan, i atal pobl rhag sefyll arno. Mae rhai atalfeydd wrth y glwyd ddeheuol hefyd. Mae llawer iawn o heddlu wedi bod yno a (gyda rhai eithriadau surbwch) maen nhw wedi ymddwyn yn ddigon addfwyn.

Roeddem i gyd am weld sut fyddai'r heddlu a'r erlynydd lleol (y Procurator Fiscal) yn delio â'r protestwyr ar ôl iddyn nhw gael eu symud. Gyda gwarchae torfol ar Faslane yn y gorffennol, y drefn arferol oedd rhai oriau yn y celloedd heb ddim gweithredu pellach neu (yn llawer hwyrach) llythyr yn cynnig dirwy sefydlog neu'n gwysio'r person ger bron llys. Y tro yma, maen nhw'n cadw pobl dros nos yn y celloedd, gyda'r dewis, mae'n debyg, o fynd â nhw ger bron llys drannoeth, ond mewn gwirionedd, ym mhob achos hyd yn hyn, maen nhw wedi gollwng pawb yn rhydd yn syth o'r celloedd gyda llythyr yn eu rhybuddio i beidio â bod yn berson drwg eto neu …

Mae'r blocediau eisoes wedi llwyddo i ddod â phobl newydd i mewn i gymryd rhan yn y gwrthwynebiad sifil i Trident. Mae hyd yn oed yn dechrau gwawrio ar y cyfryngau confensiynol fod rhywbeth yn digwydd. Os ydych am bori, chwiliwch drwy'r newyddion gyda "Faslane Blockade" ac fe fydd adroddiadau'n ymddangos o bob man, rhai ohonyn nhw ynglyn â grwp neilltuol sy'n dod i gymryd eu tro.

Y nod yw parhau am flwyddyn gron, os bydd rhaid, ond mae bylchau yn y rota o hyd, yn cynnwys yn ystod y deufis nesaf. Mae rhai grwpiau sydd eisoes wedi cymryd rhan yn dechrau cynllunio eu hail shifft, ond mae lle i lawer mwy. Does neb o'r grwpiau hyd yn hyn wedi dod â'r 100 o flocedwyr a ragwelwyd yn y cynllun gwreiddiol, ond er hynny, maen nhw wedi gallu blocedio'r effeithiol iawn. Os nad ydych yn rhan o unrhyw grwp, gallwch chwarae rhan drwy ymuno â grwp neu ymuno â'r dyddiau CND ar y 5ed a'r 6ed o Dachwedd neu Trident Ploughshares ar yr 11eg a'r 12fed o Ragfyr.

Cysylltwch â www.faslane365.org
08454588365
info@faslane365.org



ffoto: undercurrents

**De Murphy o Abertawe wedi cloi 'mlaen yn Faslane**

## Ffyrdd eraill o gefnogi Faslane 365

Mae Datganiad o Gefnogaeth ar gyfer Faslane 365 wedi cael ei arwyddo gan dros 40 o wleidyddion etholedig, 27 o enillwyr gwobr Right Livelihood a 3 enillydd Gwobr Heddwch Nobel, ymysg llawer mwy, gan gynnwys ysgrifenwyr, academyddion, cyfreithwyr ac arweinwyr crefyddol. Gweler: **www.faslane365.com**

**Ymunwch â ni, hyd yn oed os na allwch chi ddod:**

*Ysgrifennwch i'ch papur lleol yn dweud wrthynt am y grwpiau Faslane 365 o Gymru, beth a pham y maent yn ei wneud a'ch rhesymau chi am eu cefnogi.

*Ysgrifennwch at eich AS/AC/ASE yn gofyn iddynt lofnodi'r Datganiad o Gefnogaeth i Faslane 365 **(gweler www.faslane365.org)** neu i ddiolch iddynt os ydynt eisoes wedi gwneud hynny – helpwch i wneud Trident yn fater etholiadol!

*Ystyriwch ymuno â grwp arall Faslane 365 o fewn y flwyddyn nesaf.
(gweler www.faslane365.org)

# Nawr yn fwy nac erioed

Mae'r cyhoeddiad o Ogledd Korea (DPRK) eu bod wedi profi arf niwclear am y tro cyntaf wedi ei gondemnio ar draws y byd wrth reswm, yn fwyaf pwysig gan Gyngor Diogelwch y CU. Mae CND Cymru yn cefnogi'r condemnio.

Mae'n weithred sydd y cynyddu'r tensiwn yng Ngogledd Dwyrain Asia, yn cynyddu risg ymlediad niwclear pellach ac yn groes i ymrwymiadau i ddiweddu profion niwclear a gweithio tuag at gael gwared ar arfau niwclear.

Mae dros 2,000 o ffrwydriadau prawf arfau niwclear wedi eu gweithredu gan China, Ffrainc, India, Pacistan, Rwsia yr UDA a Phrydain, pob un yn llygru'r amgylchedd, bygwth heddwch ac anog ras arfau niwclear.


Mae Gogledd Korea yn awr yn aelōd o'r teulu niwclear yma sydd ar gynydd. Rhaid i ni roi pwysau arnynt i weithredu Cytundeb Gwahardd Profi a'r Cytundeb Gwrth-Ymlediad. Rhaid wrth weithredoedd diplomataidd i sicrhau datrysiad heddychlon a dychwelyd i'r trafodaethau Chwech Parti o blaid dad-niwclareiddio ym mhenrhyn Koreaidd. Ni ellir ymladd yn ol gan ddefnyddio arfau niwclear, mae nhw'n ddibwrpas. Mae angen ymateb diplomyddol a chall.

Ond rhaid i ni hefyd edrych ar gyfrifoldeb ein llywodraeth ni am y digwyddiadau yma. Mae llywodraeth y DU eisoes wedi arwyddo'r cytundebau rhyngwladol ond yn benderfynol o fynd yn ei blaenau gyda chenhedlaeth newydd o arfau niwclaer Trident yn hytrach na diarfogi. Nid ydynt yn gwrthwynebu profion Gogledd Korea ar sail foesol neu egwyddorol - sut allen nhw pan mae nhw'n gwneud yr un peth ond gan ddefnyddio laseri i efelychu profion yn Aldermaston. Mae'n hen bryd i'r gwledydd niwclear arwain trwy esiampl. Mae cyfrifoldeb arnynt i beidio arwain pob rhanbarth o'r byd i ebargofiant niwclear.

Gobeithiaf bydd yr ehangiad diweddaraf yma o dechnoleg niwclear yn sbarduno llawer mwy o bobl i ddod i'r brotest yn Faslane ar Dachwedd 13-15fed. Mae'r angen i stopio cenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn fater o fwy o frys nac erioed o'r blaen. Gobeithiaf eich gweld chi yno.

**Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio I ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgychledd.**




# Ymunwch â Dadl Fawr Trident

**Mae clymblaid eang o unigolion a mudiadau* wedi lansio ymgyrch i sicrhau dadl gyhoeddus a seneddol lawn ynglyn â beth ddylai olynu system arfau niwclear Prydain, Trident. Mae CND yn annog unigolion a mudiadau i arwyddo datganiad (gweler isod) ar y wefan www.bigtridentdebate.org.uk ac i sgrifennu at eu AS ynglyn â'r mater.**

Mae gwefan Dadl Fawr Trident yn cynnig gofod i'r cyhoedd allu trafod y mater hefyd. Nid yw'n gyfyngedig i un safbwynt, ac anogir pobl o bob barn i gyfranogi.Os nad ydych yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd, ac os ydych yn cefnogi'r nod o ddadl agored a llawn ynglyn â dyfodol Trident, da chi, arwyddwch y datganiad isod.

Pam nad ewch chi i wefan Dadl Fawr Trident, sef www.bigtridentdebate.org.uk ac ymuno yn y drafodaeth? Mae'n cynnwys rhestri o enwau'r rhai sydd wedi arwyddo, cysylltau defnyddiol ar gyfer gwybodaeth bellach, amlinelliad o'r deddfau arfau niwclear rhyngwladol, a fforwm trafod.

** Mae'r glymblaid yn cynnwys Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yr Eglwys yng Nghymru, Greenpeace, CND, Pobl a Phlaned, Rhyfel ar Angen, Ymgyrch Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston a Gwyddonwyr dros Gyfrifoldeb Byd-eang.*

*'A ellid cael bygythiad mwy dychrynllyd, yn y byd sydd ohoni, nag arfau niwclear neu fiolegol yn nwylo terfysgwyr, neu'n cael eu defnyddio gan Wladwriaeth, o ganlyniad i rwy gamddealltwriaeth neu gamsyniad ofnadwy? Po fwyaf o Wladwriaethau sydd ag arfau o'r fath, y mwyaf yw'r perygl. A, po fwyaf y bydd y Gwladwriaethau hynny yn parhau i ychwanegu at eu harsenal, neu'n mynnu bod arfau o'r fath yn hanfodol i ddiogelwch eu cenedl, y mwyaf y bydd Gwladwriaethau eraill yn teimlo bod yn rhaid iddynt hwythau eu cael, er eu diogelwch eu hunain.'*

**Kofi Annan,**
Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

*Rwyf fi, sydd wedi arwyddo isod, yn credu bod:*

Dyfodol system arfau niwclear Trident Prydain o bwys cenedlaethol a rhyngwladol mawr iawn ac y bydd oblygiadau i hynny am ddegawdau. Ni ddylid penderfynu dim heb drafodaeth lawn a gwybodus ar lefel gyhoeddus a seneddol.

Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw hwyluso ymgynghoriad cenedlaethol trylwyr. Rhaid i'r ddialog hon ddylanwadu ar y broses benderfynu, a rhaid iddo fod wedi digwydd cyn i'r Llywodraeth benderfynu ynglyn â'r ffordd ymlaen.

Rhaid i'r Llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr a dadansoddiad o'r holl faterion allweddol, yn cynnwys dewisiadau niwclear a di-niwclear, y bygythiadau a ganfyddir i'r DU yn awr ac yn y dyfodol, gallu arfau niwclear i ymateb i'r fath fygythiadau, amcangyfrif o gost pob un o'r opsiynau, dyletswyddau rhyngwladol a'r effeithiau o safbwynt ymlediad niwclear.

Rhaid i'r Llywodraeth neilltuo'r amser angenrheidiol ar gyfer dadl seneddol lawn, a'r Senedd ddylai benderfynu'r cwestiwn hanfodol a ddylai Prydain ddal i fod ag arfau niwclear ai peidio.

**Anfonwch hwn at Ddadl Fawr Trident, CND, 172 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.**


## OLYNYDD I TRIDENT

Trident yw system arfau niwclear Prydain. Disgwylir iddi ddod i derfyn ei chyfnod gwasanaeth yn y 2020au. Mae'n debyg y cymer rhyw 14 blynedd i ddatblygu rhywbeth i gymryd lle'r system, ac mae Llywodraeth San Steffan wedi dweud y bydd yn penderfynu ar y mater cyn diwedd y flwyddyn.

Llynedd, addawodd y Llywodraeth y ceid trafodaeth agored a llawn ar ddyfodol arfau niwclear Prydain. Ers hynny, mae galw mawr wedi bod gan bobl o bob safbwynt am ddadl gyhoeddus a seneddol go iawn, ond ychydig iawn yw'r arwyddion fod hyn yn mynd i ddigwydd.

Ym mis Medi, ar sail atebion seneddol a gyda chefnogaeth ymchwilwyr annibynnol Ty'r Cyffredin, amcangyfrifodd y Democratiaid Rhyddfrydol y byddai gwir gost comisiynu a gweithredu system newydd yn lle Trident yn £76bn o leiaf. Mae'r amcangyfrif yma wedi ei seilio ar ffigurau swyddogol ac mae'n cymryd i ystyriaeth gost prynu taflegrau Trident newydd, llongau tanfor niwclear Trident newydd yn lle'r rhai presennol, a chostau blynyddol cynnal a chadw'r system a'r ergydion niwclear dros gyfnod o 30 mlynedd.

Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o amcangyfrifon wedi rhagweld y bydd cost olynydd i Trident rywle rhwng £15bn a £25bn, ond doedd y rhain ddim yn cynnwys costau cynnal a chadw blynyddol. Nid yw costau dadgomisiynu a storio gwastraff ymbelydrol wedi cael eu cynnwys.




## Nain wefreiddiol arall dros heddwch

**Mae'r 'Nain dros Heddwch' ddiofn a balch, Joan Meredith, wedi bod allan ar strydoedd Caer yn ymgyrchu yn erbyn arfau niwclear.** Mae Joan yn enwog yn lleol am fod yn un o'r rhai a brotestiodd yn erbyn caniatáu i awyrennau milwrol yr UD i godi tanwydd ym maes awyr Prestwick yn yr Alban tra'r oedd Libanus yn cael ei bomio. Meddai Joan, "Mae'n rhaid i ni wneud safiad yn erbyn trais yn gyffredinol, ac mae taflegrau Trident yn arfau anghyfreithlon. Os yw ein diogelwch yn dibynnu ar arfau niwclear, yna mae arna'i gywilydd. Os na allwn ddod at ein coed yn yr 21ain ganrif, mae'n wael iawn arnom." Y sôn gan y llywodraeth am olynydd i Trident a yrrodd Joan allan ar strydoedd Caer.

Mae Joan yn adnabyddus i lawer yn Aberystwyth lle'r arferai fyw. ac mae wedi ymddeol o ddysgu pobl fyddar. Mae wedi cael ei restio lawer tro am ei weithredoedd uniongyrchol di-drais y tu allan i wersylloedd milwrol. Mae'n weithgar gyda'r mudiad gweithredu uniongyrchol, Trident Ploughshares. Meddai Joan wrth ei papur lleol: "Gwleidyddion sy'n mynd â ni i ryfel – a phob gyffredin sy'n dioddef yn y canol. Ni yw'r niwed ystlysol (*collateral damage*)."

## Yr eglwysi'n gwrthwynebu olynydd i Trident

**Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymuno â'r rhai sy'n galw ar y Llywodraeth i beidio â phrynu olynydd i'r system arfau Trident. Ar ôl clywed Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan, yn mynegi ei wrthwynebiad ym mis Medi, pasiwyd cynnig gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn gresymu wrth benderfyniad y Llywodraeth "i ystyryried cynnal a chadw ac adnewyddu rhaglen arfau niwclear Trident".**

Dywedodd yr Archesgob y byddai'n well defnyddio'r £25 biliwn y byddai'n costio i brynu system newydd yn lle Trident i atal 16,000 o blant y dydd rhag marw o afiechydon a achosir gan ddwr brwnt a newyn. Aeth yn ei flaen i ddweud: "Mae marwolaeth 16,000 o blant y dydd yn gyfystyr â 40 awyren jumbo yn disgyn o'r awyr bob diwrnod o'r wythnos. Fyddai ein byd ddim yn fodlon goddef hynny – edrychwch ar beth sy'n digwydd pan ddaw ein meysydd awyr i stop. Ond rydym yn fodlon goddef newyn, tlodi a dwr amhur, ac rydym yn barod i ystyried gwario ein hadnoddau ar arfau dinistr torfol."

### Lloegr

Cefnogwyd gwylnos Gristnogol a gynhaliwyd wrth glwydi SAA Aldermaston ym mis Hydref gan Esgob Reading, y Gwir Barchg Stephen Cottrell. Meddai'r Esgob:"Cred y byd y gellir sicrhau heddwch drwy bwyntio arfau mwyfwy soffistigedig at ein gilydd. Dyw hynny ddim yn mynd i weithio."

Dylai protestwyr weddïo "y gall ein gwlad dynnu'n ôl o ddatblygu hyd yn oed mwy o arfau dinistr torfol" meddai'r Esgob. Dim ond dealltwriaeth, sadrwydd a rhyddid rhag tlodi allai ddod â heddwch parhaol. Yn ddiweddarach yr un wythnos, cafodd baner ei chrogi o do pencadlys Prydeinig y gwneuthurwyr arfau Lockheed Martin yn Llundain, gan y Tad Martin Newell, aelod arall o gymuned Gweithwyr Pabyddol Llundain, Stephen Barnes, ac aelod o Trident Ploughshares, Irene Willis. Lockheed Martin yw'r prif gontractwr ar gyfer y Taflegryn Balistig Llong-danfor (SLBM)Trident II. Mae gan y cwmni is-gontract sylweddol hefyd ar Safle Profion yr UD yn Nevada i wneud 'profion is-gritigol' ar ddyluniadau ar gyfer arfau niwclear newydd, math o brofion sy'n ceisio manteisio ar fylchau posibl yn y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr.

### Yr Alban

Ym mis Medi, cwblhaodd arweinwyr eglwysig yn yr Alban "Daith Gerdded Hir dros Heddwch". Siaradodd y Cardinal Keith Patrick O'Brien, Llywydd Cynhadledd Esgobion yr Alban, y Gwir Barchedig Alan McDonald, Llywydd Cynulliad Cyffredinol Eglwys yr Alban, ac Esgob Esgobol Caeredin, y Gwir Barchedig Brian Smith yn erbyn olynydd i Trident hefyd. Mae Tony Blair wedi dweud y penderfynir ynglyn â dyfodol y system daflegrau erbyn diwedd y flwyddyn.

# Menywod Aldermaston yn ffrwydro myth swyddi yn y SAA

**Mae Pwyllgor Dethol y Senedd ar Amddiffyn wedi bod yn cynnal ymchwiliad yn gysylltiedig â dyfodol rhaglen arfau niwclear Prydain. Mae'r rhan ddiweddaraf yn canolbwyntio ar un o agweddau'r arolwg o "Sail gweithgynhyrchu a sgiliau'r DU", ac mae'n ymwneud â phenderfyniad y Pwyllgor i archwilio "rhaglen fuddsoddi'r Llywodraeth yn Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston".**

Mae Ymgyrch Heddwch Menywod Aldermaston (AWPC) wedi ymateb drwy ddadlau fod llawer mwy wedi cael ei fuddsoddi yn y sail sgiliau a gweithgynhyrchu yn Aldermaston nag a fyddai ei angen i warchod y cynnwys niwclear presennol. Mae'r Ymgyrch yn nodi hefyd fod y buddsoddiad mewn isadeiledd a staff yn dynodi fod y llywodraeth eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol tuag at ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arfau niwclear cyn cynnal dadl gyhoeddus a chyn cael cyhoeddiad cyhoeddus gan y llywodraeth ar olynydd i'r system Trident bresennol. Mae'r Ymgyrch hefyd yn argymell y dylai'r llywodraeth fod yn fwy agored ynghylch y cynigion ar gyfer y SAA a chynlluniau a phenderfyniadau a wnaed eisoes ynglyn ag olynydd i Trident.

Hyd yn hyn, mae'r llywodraeth Brydeinig wedi gwrthod datgelu ei hastudiaethau ar effeithiau ariannol, diplomatig a milwrol tebygol adeiladu bom atomig newydd i neb, er bod 200 o ASau wedi gofyn am gael eu gweld. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwrthod ymddangos ger bron Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Amddiffyn i ateb cwestiynau ynglyn â'r rhaglen fomiau newydd.

Mae AWPC wedi ymgyrchu yn erbyn cynhyrchu a chadw arfau niwclear yn SAA Aldermaston ers 20 mlynedd, ac mae'n cynnal presenoldeb cyson ger SAA Aldermaston drwy wersyll heddwch misol a thrwy fonitro gweithgareddau ar y safle.

**Cysylltwch ag: AWPC, d/o 18 Greenway Road, Bryste BS6 6SG**

## Gwersyll Heddwch y Menywod

**Cynhelir gwersyll heddwch menywod Aldermaston ar ail benwythnos pob mis, o nos Wener tan amser cinio ddydd Sul. Dyddiadau 2006 yw: Tachwedd 10$^{fed}$-12$^{fed}$, Rhagfyr 8$^{fed}$-10$^{fed}$. Dyddiadau 2007 yw: Ionawr 12$^{fed}$-14$^{eg}$ Chwefror 9$^{fed}$-11$^{eg}$ Mawrth 9$^{fed}$-11$^{eg}$.**

**Gellir darllen cyflwyniad llawn AWPC ar: http://www.aldermaston.net/pdf/dsc_sub_1006.pdf**

## Gwersyll NEWYDD yn SAA Aldermaston!

**Fe'ch gwahoddir i ymuno â gwersyll heddwch newydd cymysg ger Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston, a fydd yn ychwanegu at bwysau Ymgyrch Blocio'r Bildars i atal datblygu'r genhedlaeth nesaf o arfau niwclear, ac i gynorthwyo'r bobl i ddiarfogi ffatri fomiau niwclear Prydain. Y bwriad yw i'r gwersyll gefnogi (nid gwanhau) mathau eraill o ymgyrchu a gweithredu uniongyrchol yn Aldermaston, yn enwedig y gwarchae Blocio'r Bildars misol, ac Ymgyrch Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston; nid niferoedd mawr mo'r nod, ond dyfal-barhad a gwaith cyhoeddusrwydd/ cynyddu ymwybyddiaeth effeithiol.**

**Diddordeb? Croeso i chi ddod acw, unrhyw bryd o tua hanner dydd ar y dydd Sadwrn. Neu cysylltwch â Blocio'r Bildars gyntaf i gael gwybod mwy:**

**e: btb@aldermaston.net sym: 07969 739 812 tel: 0845 4588 368 http://www.blockthebuilders.org.uk**

## Beth yw Aldermaston?

Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston yn Berkshire yw canolbwynt diwydiant arfau niwclear Prydain. Ers 55 mlynedd, mae arfau niwclear Prydain wedi cael eu hymchwilio, eu datblygu a'u cynhyrchu gan y 'ffatri' yma – y diweddaraf oedd Trident – gyda chymorth helaeth gan labordai arfau niwclear a chynhyrchwyr niwclear yr UD.

Yn y 15 mlynedd diwedaf, mae'r SAA wedi gwneud newidiadau allweddol i Trident: ehangu'r nifer o dargedau; aldargedu cyflym; gwella cywirdeb; taflegrau un-ergyd; a, bron yn sicr, datblygu ergydion 'cynnyrch-isel' sy'n 'fwy defnyddiadwy'.

Ysgogwyd y newidiadau hyn gan y ffantasi y byddai ymosodiad Trident ar darged gydag un taflegryn manwl-gywir yn cario.ergyd niwclear 'cynnyrch-isel' yn lladd llai o sifiliaid, gan olygu y gellid ei ddefnyddio mewn rhyfel confensiynol oherwydd y gellid darbwyllo'r cyhoedd bod ei ddefnyddio'n debyg o achosi llai o anafiadau i sifiliaid.

Mae hwn yn syniad gwallgof a ysgogwyd gan yr angen, ar ôl y Rhyfel Oer, i ganfod defnydd i Trident nawr fod y gelyn yr oedd i fod i'w atal, sef yr Undeb Sofietaidd, wedi peidio â bod. Dengys amcangyfrifon y llywodraeth Brydeinig pe bai'r ergyd niwclear a ddefnyddid yn ddim ond ciloton o faint (sef canwaith llai na'r ergyd Trident safonol):
byddai pawb o fewn cilometr yn cael eu lladd ar unwaith gan ymbelydredd;
byddai pobl o fewn dau gilometr yn cael eu hanafu;
byddai pobl oedd yn byw yng nghyfeiriad y gwynt yn dioddef o salwch ymbelydredd ar unwaith ac yn y tymor hwy, byddai eu bywydau nhw a bywydau eu plant yn cael eu handwyo gan lewcemia ac afiechydon eraill.

Mae'n debyg fod ergydion Trident cynnyrch-isel wedi bodoli ers o leiaf 2000, pan ddywedodd adroddiad SAA:

"... gyda chywirdeb uchel, targedu, a dewis o ergydion o ddau faint, gall [Trident] weithedu mewn swyddogaeth strategol ac is-strategol."

Mae'r arfau niwclear 'mwy defnyddiadwy' yma nid yn unig yn debyg o gael eu defnyddio, maen nhw'n cael eu peiriannu'n fwriadol i'r union ddiben hwnnw – gan herio cytundebau rhyngwladol.


**Mae CND Cymru yn llwyr wrthwynebu'r arfau anghyfreithlon, anfoesol, drud ac amhosibl eu cyfiawnhau sy'n cael eu datblygu yn Aldermaston.**


# Manceinion 23ain o Fedi

**Cymerodd gwrthdystwyr o bob rhan o Gymru ran yn y gwrthdystiad ym Manceinion ar y 23ain o Fedi. Amgcangyfrifir fod 60,000 o bobl o bob rhan o Brydain wedi cyfleu'r neges 'Milwyr Mas o Irac', 'Peidiwch Ymosod ar Iran', a 'Dim Olynydd i Trident' i Tony Blair a Chynhadledd y Blaid Lafur.**

ffotograffiaid: Angus Eickhoff





Criw Aberystwyth o Glowniau Drygionus CIRCA (Clandestine Insurgent Rebel Clown Army)

# Amgylchynu 'Lle Peryg i'r Byd'

Ar yr 16eg o Hydref, ffurfiodd cannoedd o ymgyrchwyr gadwyn ddynol o gwmpas pencadlys DESO (Sefydliad Gwasanaethau Allforio Amddiffyn), uned y llywodraeth Brydeinig sy'n sicrhau busnes ar gyfer cwmnïau arfau preifat. Gan gyfeirio ato fel 'Lle Peryg i'r Byd', fe alwon nhw am gau'r DESO. Roedd y digrifwr Mark Thomas a'r gweithredwr heddwch a herwgipiwyd, Norman Kember, yn rhan o'r gadwyn.

Roedd y gwrthdystiad heddychlon yn tanlinellu swyddogaeth y DESO, sy'n gwario arian trethdalwyr er lles masnachwyr arfau ac sy'n marchnata arfau i lywodraethau milain fel Saudi Arabia. Teithiodd protestwyr o bob rhan o Brydain i ymuno â'r gadwyn, a ddenodd lawer o gefnogaeth gan bobl sy'n byw a gweithio yn y cylch. Aethpwyd oddi yno i lobïo'r Senedd.

Meddai Mark Thomas, yr awdur a'r digrifwr:

'Pan ddefnyddir arian trethdalwyr i noddi gwerthu arfau, rydym yn rhan o'r fasnach honno. Rydym yma i ddweud "Na! Wnawn ni ddim bod yn rhan o hyn!"'

Dywedodd Anna Jones o'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau:

'Mae pobl o bob maes wedi dweud heddiw fod yn rhaid cau'r DESO. Dydy'r cyhoedd ym Mhrydain ddim eisiau i'w trethi dalu am asiantaeth farchnata ar gyfer gwerthwyr arfau preifat. Ein neges yw ei bod hi ar ben ar smyglwyr gynnau'r Llywodraeth.'

Roedd y gadwyn ddynol yn cynnwys pobl o bob ffydd a rhai heb yr un gred grefyddol. Yn gynharach, cynhaliwyd cwrdd gweddi Cristnogol y tu allan i bencadlys DESO.

Cefnogir yr ymgyrch i gau DESO gan y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru, a'r Blaid Werdd ynghyd â meincwyr cefn blaenllaw, yn cynnwys Clare Short a John McDonnell. Mae ganddi gefnogaeth arweinwyr crefyddol blaenllaw yn cynnwys Graham Carter (Llywydd yr Eglwys Fethodistaidd), Colin Bennetts (Esgob Anglicanaidd Coventry) a Patrick O'Donoghue (Esgob Pabyddol Caer-lyr). Dim ond un o dri deg pump o fudiadau a grwpiau gwleidyddol sydd wedi cymeradwyo'r ymgyrch yn ffurfiol yw CND.

**heddweithredu:**

**Mae'r ymgyrch yn rhedeg tan ddiwedd mis Tachwedd. Am fwy o wybodaeth: http://www.caat.org.uk/campaigns/calltheshots/lobby-guide.php neu cysylltwch â: p: Campaign Against Arms Trade,11 Goodwin St, Finsbury Park, Llundain N4 3HQ t: 020 7281 0297 e: action@caat.org.uk**

Faslane 365

## Protest gyntaf, ond nid yr olaf

**Roedd Sarah Thom o Fae Cemaes yn un o'r rhai a restiwyd mewn gwarchae Faslane 365 ym mis Hydref.**

Cafodd ei chyhuddo o droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a chyfodd rybudd gan y Procurator Fiscal. Dywedodd Sarah, a alwyd yn 'Fam Brotest a Restiwyd' gan y North Wales Daily Post: 'Dylai'r hyn sy'n digwydd fod yn gwbl anghyfreithlon, ac ni ddylai neb gael defnyddio arfau niwclear. Hon oedd fy mhrotest gyntaf, ond cyn gynted ag y clywais ei bod yn digwydd, roedd yn rhaid i mi fynd i'r Alban. Roeddwn yn teimlo mor gryf. Byddwn yn gwneud yr un fath eto. Dim cwestiwn. Dwi ddim yn difaru dim."




**Faslane Hydref 2006**



# Amddiffyn rhyddid i lefaru a gweithredu

**Ymgyrch heddychlon yw Parliament Protest i wrthwynebu'r cwtogi a fu ar ryddid i ymgynnull a llefaru o ganlyniad i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) 2005.**

Rhuthrwyd SOCPA drwy'r senedd heb nemor ddim trafodaeth yn ystod y broses "golchi lan" annemocrataidd ar ddiwedd y Senedd ddiwethaf pan oedd yr Etholiad Cyffredinol wedi cael ei alw. Mae trwch y Ddeddf yn delio â sefydlu'r Asiantaeth Troseddu Cyfundrefnol Difrifol, ond mae'n cynnwys adrannau fel Adran 110 (Pwerau i Restio) sy'n gwneud unrhyw dramgwydd, ni waeth pa mor bitw, yn dramgwydd y gellir restio rhywun amdano. Gall cael eich restio gan yr heddlu heddiw olygu cymryd olion bysedd ac olion cledrau'r dwylo, sampl meinwe DNA sy'n cael ei brosesu'n "ôl bys" DNA digidol, eich gorfodi i ddiosg unrhyw ddilledyn sy'n cuddio'r wyneb (hyd yn oed rhai a wisgir i ddibenion crefyddol) a thynnu lluniau o'ch wyneb. Caiff yr awdurdodau gadw'r holl ddata personol yma hyd yn oed os na chewch eich cyhuddo, os dileir cyhuddiadau yn eich erbyn, neu os bydd llys yn eich cael yn ddieuog. Mae gan hyn oblygiadau i bob un ohonom sy'n gweithredu'n uniongyrchol ac yn ddi-drais dros heddwch, cyfiawnder a diarfogi niwclear.

Treuliodd Genny Bove, o Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam, ddwy noson ar Sgwâr y Senedd yn ddiweddar mewn protest a drefnwyd i gefnogi protest hirfaith Brian Haw yn erbyn rhyfel yn Sgwâr y Senedd. Roedd Brian Haw wedi bod ger bron llys am beidio ag ufuddhau i amodau SOCPA a'i achos wedi cael ei ohirio i ddisgwyl canlyniad gwrandawiad barnwrol yn ymwneud ag ymddygiad yr heddlu tuag ato. Meddai Genny: "Mae protest Brian yn atgoffa pobl beunydd o effaith trychinebus polisi tramor Prydeinig ar bobl gyffredin. Mae holl ymdrechion yr awdurdodau i geisio'i symud yn tystio i effeithiolrwydd ei brotest. Ers i SOCPA fynd yn ddeddf, mae ail agwedd i'r brotest – sef amddiffyn hawl pawb i brotestio'n heddychlon mewn democratiaeth honedig."

**heddweithredu:**

**gweler: http://ParliamentProtest.org.uk www.indymedia.org.uk www.parliament-square.org.uk**

**Mae'n werth tanysgrifio i Newyddion Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam am ei adroddiadau a'i drafodaethau. Cysylltwch â FfHCW, Blwch SP 661, Wrecsam LL11 1QU. Cyfraniadau tuag at y costau yn daladwy i *Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam***

**t:: 0845 330 4505**

**e: wrexhamsaw@yahoo.com**

***'Rhaid i'r byd anelu at gael gwaharddiad ar feddiant a defnydd o arfau niwclear, yn yr un modd ag y mae gwaharddiadau ar arfau biolegol a chemegol. Rhaid i bob gwladwriaeth – hyd yn oed y pwerau mawr – baratoi i fyw heb arfau niwclear ac arfau distryw eraill.'***

**Hans Blix,**

cyn arolygydd arfau niwclear, Cadeirydd y Comisiwn Arfau Dinistr Torfol



ffoto: parliament protest.org

nuclear nato

## ASEau yn galw am ddileu holl arfau'r UD o Ewrop

Ym mis Hydref, arwyddodd grwp traws-bleidiol o ASEau 'Ddatganiad Ysgrifenedig' wedi ei noddi gan Angelika Beer, ASE Gwyrdd o'r Almaen ac ASE Plaid Werdd Lloegr, Caroline Lucas. Mae'r Datganiad yn galw ar yr UD i symud pob arf niwclear o ganolfannau milwrol yn yr UE erbyn diwedd y flwyddyn. Denodd y cynnig lofnodion 75 o ASEau o blith gwledydd yr UE.

Mae Datganiad Ysgrifenedig yn y Senedd Ewropeaidd yn cyfateb i Gynnig Boreol yn Nhy'r Cyffredin. Er bod y lefel o gefnogaeth a dderbyniodd y datganiad yn is na'r trothwy ar gyfer mynd yn bolisi seneddol swyddogol, dyma'r tro cyntaf i alwad gan y Blaid Werdd i gael gwared o arfau niwclear yr UD dderbyn cefnogaeth draws-bleidiol.

**heddweithredu:**
**Gellir gweld copi o'r Datganiad ar: http://www.europarl.europa.eu/activities/expert/writtenDecl.do;jsessioni neu cysylltwch ag CND Cymru.**

**CAFWYD!**
**arfau dinistr torfol***

**UDA: 10,640**
**Rwsia: 8,600**
**China: 400**
**Ffrainc: 350**
**Prydain: 200**
**Israel: 100-200**
**India: 30 - 35**
**Pakistan: 24 - 48**

***a dim ond arfau niwclear yw'r rheini**

cnd cymru
yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear

## Arolygiad byr-fyfyr o safle 'niwcs bychan' newydd Ffrengig

**Ym mis Medi, treiddiodd gweithredwyr heddwch o Brydain i'r ganolfan niwclear Ffrengig yng nghanolfan brofion Les Landes yn Biscarosse, ger Bordeaux, lle mae cenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn cael eu datblygu.**

Ymunodd y deg gweithredydd ag arolygiad dinasyddion torfol a drefnwyd gan glymblaid o gyrff anlywodraethol, yn cynnwys ATTAC, Réseau Sortir du Nucléaire , Mouvement de la Paix, Greenpeace a'r Crynwyr. Canolbwynt yr arolygiad oedd datblygiad y taflegryn niwclear M51 newydd, arf manwl-gywir y bwriedir ei saethu o longau tanfor, a all deithio hyd at 10,000 km. Testun pryder neilltuol yw bod grym ffrwydrol cymharol isel yr ergydion y bydd yn eu cario yn golygu y bydd yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio. Llwyddodd Angie Zelter, o Norfolk, Lesley Anderson, o swydd Clackmannan, Mell Harrison a Peter Lux, ill dau o Norwich, a Ludd Appeltans, o wlad Belg ond sy'n byw yn yr Alban ar hyn o bryd, i groesi "llain gwaharddedig" a mynd i mewn i'r safle, gyda Lesley Rogers, o Beith yn swydd Ayr, Matt Bury, o Wersyll Heddwch Faslane, a Sam Maher, o Norwich, yn dynn ar eu sodlau.

Roedd y gweithredwyr Prydeinig yn benderfynol o sefyll ochr yn ochr â mudiad gwrth-niwclear Ffrainc, gan fod Prydain a Ffrainc yn bygwth parhau i ddibynnu ar arfau dinistr torfol, i ddatblygu rhai newydd, a thrwy hynny, i dorri eu hymrwymiadau cyfreithiol o dan y Cytundeb Atal Ymlediad. **www.tridentploughshares.org**

# Ieuenctid Ewrop, Unwch!

***Mae mudiad ieuenctid gwrth-niwclear Ewrop yn fyw ac yn seiclo!***

**Am ddeg diwrnod yn yr haf, daeth 40 o bobl ifanc o 15 o wledydd Ewrop ynghyd yng Ngwlad Belg i ddysgu am bwer niwclear ac arfau niwclear ac i ymgyrchu yn eu herbyn. Fe deithiais i yno o Aberystwyth i gynrychioli Cymru.**

Fe dreulion ni dri o'r deg diwrnod yn seiclo. Dechreuson yn Leper (Ypres) ac yna, gyda 40 beic wedi eu haddurno â 40 o faneri gwrth-niwclear melyn llachar, dyma seiclo ymlaen i Tielt, Ghent a Brwsel, gan ddiweddu'r daith gyda gorymdaith feiciau drwy "brifddinas Ewrop" gyda heddlu'n ein hebrwng a chymeradwyaeth gan gerddwyr Bruxellois cefnogol. Cafodd y seiclwyr eu croesawu yn Neuadd y Ddinas gan Ddirprwy-Faer Brwsel, Bruno De Lille, gan fod y digwyddiad yn cefnogi ymgyrch y "Meiri dros Heddwch" dros ddiarfogi niwclear byd-eang erbyn y flwyddyn 2020.

### Arfau niwclear yr UD

Roedd hyn yn gadael digon o amser yn ystod y 10 diwrnod ar gyfer gweithred ddi-drais yn SHAPE (Uwch Bencadlys Pwerau Cynghreiriol Ewrop), canolfan NATO ger Brwsel ar Ddydd Hiroshima. Ceisiodd rhai ohonom wneud arolygiad arfau dinasyddion yn y fan hon. Mae staff yn SHAPE yn gyfrifol am 480 o arfau niwclear yr UD sydd wedi eu lleoli mewn canolfannau NATO yng Ngwlad Belg, yr Almaen, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Twrci a Phrydain.

### Pwer Maer dros heddwch

Ar ddydd Nagasaki, bu gwarchae ar ganolfan Kleine Brogel NATO - maes awyr milwrol sy'n gartref i 20 o arfau niwclear yr UD. Denodd y weithred gefnogaeth wleidyddol sylweddol gan Aelodau Seneddol Belgaidd, yn cynnwys Jean-Luc Dehaene, cyn-Brif Weinidog Gwlad Belg, sy'n Aelod o'r Senedd Ewropeaidd. Gwrthododd yr heddlu, dan orchmynion y maer lleol, restio'r 100 o bobl a oedd yn bresennol. Llwyddodd y gwarchae, a oedd yn cynnwys pobl o Awstria, Gwlad Belg, Cyprus, Lloegr, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Norwy, Portwgal, Slofacia, Sbaen a Chymru i gau tair prif glwyd y ganolfan, i bob diben, am dair awr. Mynychwyd seremonïau i goffáu bomio Hiroshima a Nagasaki ym Mrwsel a Ghent a oedd yn cynnwys gwneud llusernau papur a'u gosod i hwylio ar gamlas Ghent.

Ond fuon ni ddim yn gweithredu'n uniongyrchol drwy'r amser. Ar y ffordd ar y daith feiciau dros heddwch, aethom i ymweld â beddau truenus a dianghenraid ieuenctid Ewrop a fu farw yng Ngwlad Belg bron 100 mlynedd yn ôl. Byddai rhyfel byd arall, gydag arfau niwclear, yn arwain at gyflafan gymaint mwy – ar raddfa annychmygadwy o ofnadwy, ac er mwyn ein dyfodol, rhaid i ni gael gwared ag arfau niwclear nawr.

### Dysgu

Fe dreulion ni lawer o amser mewn gweithdai a sgyrsiau, yn dysgu mwy ynglyn â materion niwclear, prosesau niwclear a safbwynt a safle neilltuol ein gwahanol wledydd ar arfau niwclear a phwer niwclear. Roedd y rhain mor ddiddorol a chyffrous ac yn gymaint o hwyl â'r gweithredoedd uniongyrchol eu hunain, a gan fod y trefnwyr (a oedd bron i gyd o dan 26 oed) a'r cyfranogwyr â chymhelliad cryf ac yn gyfeillgar iawn, roeddem i gyd yn tynnu mlaen yn dda iawn ac fe gyflawnwyd llawer.

### Cwrdd â hen ffrindiau

Roedd cwrdd â chymaint o bobl ifanc frwdfrydig o gymaint o wahanol wledydd yn gryfder ac yn galondid. Y pwynt a roddodd fwyaf o obaith i mi yn ystod y deg diwrnod oedd geiriau hen wr o Frwsel a ddaeth atom pan oeddem yn aros i orymdeithio o gwmpas Brwsel, a ddywedodd wrthym ei fod yntau wedi gwneud rhywbeth tebyg, flynyddoedd maith yn ôl, wrth ymgyrchu dros hawl menywod i bleidleisio.

Heddiw, wrth gwrs, mae gan bob menyw'r hawl i bleidleisio.

Pwy a wyr, felly, beth a ddeil y dyfodol?

**Emily Freeman**



**Trefnwyd y digwyddiad gan 'For Mother Earth', o Ghent yng Ngwlad Belg, corff anlywodraethol sy'n gweithio ar faterion diarfogi, hawliau dynol a'r amgylchedd.**

**Diolch i'r Siop Heddwch ac eraill a gyfrannodd tuag at dreuliau Emily.**

**Am fwy o wybodaeth a ffotograffau o'r digwyddiad, neu am wybodaeth ynglyn â For Mother Earth, ymwelwch â www.motherearth.org**


**Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fudiad gwrth-niwclear ieuenctid Ewrop, ymunwch â rhestr bost Ban All Nukes Generation ar www.bang-europe.org neu cysylltwch ag Emily ar emfreeman@hotmail.co.uk**



adolygiad

## Walking to Greenham

Ann Pettit




Dyma'r llyfr mwyaf gonest i mi ei ddarllen am daith gerdded y menywod o Gaerdydd i Greenham ym 1981 a'r digwyddiadau wedi hynny tan y gwrthdystiad "Cofleidio'r Gwersyll" byd-enwog ym mis Rhagfyr 1982. Mae Ann yn sgrifennu'n dda ac y mae, cyn belled ag y gallaf ddibynnu ar fy nghof, yn cofnodi'n gywir y digwyddiadau allweddol yn natblygiad Gwersyll Heddwch Menywod Greenham.

Fe'm gadawyd yn pendroni ynglyn â'r cyd-daro rhwng personoliaethau a digwyddiadau croestyniadol a arweiniodd at beth oedd, ym marn llawer o bobl, yn weithgaredd heddwch pwysicaf y 1980au. Fyddai'r daith gerdded o Gaerdydd ddim wedi bod yn bosibl heb y cnewyllyn penderfynol o fenywod a gasglodd Ann ynghyd – heb, yn ôl ei hanes hi, gefnogaeth ariannol gan CND pan oedd fwyaf o angen hynny.

Yn yr un modd, yn y cyfnod hollbwysig hwnnw rhwng dyfodiad y menywod i Greenham (o Gymru) a'r ymchwydd mewn cefnogaeth i'r gwersyll heddwch gan fenywod heddwch o Loegr, yr araith a draddododd Ann yn rali CND yn Hyde Park y mis Hydref hwnnw oedd y catalydd i'r cannoedd o lythyron o gefnogaeth a'r cyfraniadau a'r gwirfoddolwyr a ddilynodd.

Heb gyd-ddigwyddiad rali CND (a gawsai ei chynllunio chwe mis yn gynharach) a'r daith gerdded o Gaerdydd (heb unrhyw syniad o sefydlu gwersyll heddwch wedyn), ni fyddai gwrthdystiad mwy-na-symbolaidd Cofleidio'r Gwersyll wedi digwydd. Ond er ei bod hi'n sicr y byddai'r rheini a gyffrowyd gan Greenham, ac a gyfranogodd yn y brotest, wedi dod o hyd i ffyrdd eraill o fynegi eu gwrthwynebiad, heb hynny efallai na fyddai natur fenywaidd arbennig ymgyrchoedd heddwch ym Mhrydain wedi digwydd.

Roedd gwersyll heddwch y menywod yn rhan hanfodol o'r mudiad heddwch yn y 1980au, ond eto'n rhan wahanol, yn sefyll ar wahân i drefniadaeth a strwythur CND. Y mae er clod i CND iddo, yn wahanol i rai ymgyrchwyr Atal y Rhyfel heddiw, beidio â mynnu ar unffurfiaeth dulliau ymgyrchu fel rhagamod i barhau i gefnogi.

Does dim digon o le yma i adolygu'r penodau sy'n disgrifio ail broject Ann - mynd â'r neges i'r Undeb Sofietaidd – na'i disgrifiad o'i magwraeth a dylanwad a hanes eu rhieni – serch hynny, maent yn werth eu darllen.

**John Cox**

**Etholwyd Dr John Cox i bwyllgor gwaith CND am y tro cyntaf ym 1961. Roedd yn Gadeirydd CND Prydeinig am chwe blynedd, o 1971, ac yn Is-lywydd yn y 1980au. Ar hyn o bryd, mae'r Is-gadeirydd gweithredol CND Cymru.**


**Ann Pettitt Walking to Greenham**
**ISBN I 870206 762 Honno £8.99**


# Dal i Gerdded dros Greenham 1981 - 2006

**Roedd dathliadau 25ain mlwyddiant y Daith Gerdded i Gomin Greenham o Gaerdydd yn fuddugoliaeth dros adfyd. Ar fore'r ail o Fedi, roedd y tywydd yn ffiaidd, yn dywyll, yn wlyb ac yn wyntog ac eto, daeth rhyw 50 o eneidiau hoff, cytûn ynghyd i weld yr arwydd newydd sy'n egluro pwysigrwydd y safle yn cael ei ddadorchuddio. Fe ffurfion ni gylch mawr o gwmpas y cerrig a dal dwylo i ganu fersiwn wedi ei diweddaru o 'Fe Orchfygwn Ni' gan Bruce Springsteen: roeddem oll dan deimlad. Aethom i gysgodi yng Nghanolfan Gelfyddyd Newydd Greenham, 'tu fewn' i'r gwersyll am areithiau byr, gwin a chacen.**

Denodd y 25ain mlwyddiant a'r dathliadau lawer o sylw gan y cyfryngau. Roedd Sky TV yno gyda ni y rhan fwyaf o'r amser, yn cyfweld â menywod ac yn ffilmio'r digwyddiad. Roeddwn wrth fy modd i dderbyn negeseuon ddyddiau'n ddiweddarach yn dweud, er gwaetha'r tywydd, fod pobl yn credu fod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus.

Ar y 5ed o Fedi, union ddyddiad y 25ainmlwyddiant, cefais gyfweliad ar gyfer newyddion awr ginio'r BBC yng Ngardd Heddwch Greenham. Gofynnwyd i mi eto, fel ym mhob cyfweliad, 'beth oedd y peth mwyaf a gyflawnwyd gan Greenham'? Fe ddywedais, 'Effeithiolrwydd y brotest. Parodd am 19 mlynedd, ddydd ar ôl dydd, er gwaetha'r tywydd, yr amodau cyntefig, a'r troi allan dyddiol.' Wrth eistedd yn yr ardd yn meddwl am yr holl gynnwrf roedd y cyfryngau wedi ei greu, meddyliais am nifer o lwyddiannau y gallem, ac y gwnaethom, gyfeirio atynt yn y cyfweliadau, ond fyddai dim o'r rhain wedi bod yn bosibl pe na baem wedi bod yn gwbl ymroddedig i gynnal y brotest.

Mae'r arwydd newydd yn ychwanegiad bendigedig i'r safle a adwaenir yn awr fel Gardd Heddwch Greenham. Cost yr arwydd oedd £3,125.49, ac roedd costau ychwanegol trefnu'r digwyddiad yn £240.00. Rydym yn dal yn fyr o £300. Os hoffai unrhyw un anfon cyfraniad bychan i lenwi'r bwlch, gwerthfawrogid hynny. Dwi ddim yn gofyn i'r rheini sydd eisoes wedi cyfrannu am gyfraniad arall, diolch i bawb. Mae'r arwydd yn sicr yn werth y gost – mae'n diffinio'r safle ac yn cofnodi hanes y brotest gydag awdurdod na ellir ei ddiystyru neu ei anwybyddu. Gellir gweld testun yr arwydd isod.

Rwyf wedi anfon copïau o'm llyfr, *Greenham Non-Violent Women vs The Crown Prerogative* i 50 o lyfrgelloedd a enwyd – ar ran cyfranwyr penodol. Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd ran – byddwn yn falch o dderbyn mwy o geisiadau. Mae diddordeb y cyfryngau a'r wasg yn 25ainmlwyddiant Greenham yn dangos fod y brotest yn dal i fod yn gyfeirbwynt i rai sy'n cymryd rhan mewn protestiadau heddychlon, neu sy'n eu hastudio. Mae'n hollbwysig cael y llyfr i mewn i lyfrgelloedd a phrifysgolion er mwyn cenedlaethau'r dyfodol o brotestwyr. Y cwbl sydd ei angen yw cyfraniad o £6.00 ac enw a chyfeiriad eich llyfrgell leol. Pan fyddaf yn ei anfon, byddaf yn rhoi'ch enw chi fel cyfrannydd ac amlinelliad byr ond perthnasol o gynnwys y llyfr, Efallai na chewch chi gydnabyddiaeth gan y llyfrgell, mae'n bosibl mai'r cwbl wnan nhw fydd ei dderbyn fel cyfraniad.


**Sarah Hipperson ~ Cyd-drefnydd Gardd Heddwch Greenham**
**15, Sydney Road, Wanstead, London E11 2JW 0208 989 4819**


### GARDD HEDDWCH GREENHAM

Croeso i bawb sy'n ymweld â'r lle hwn. Saif yr Ardd Heddwch ar ddarn o dir lle bu menywod di-drais yn gwersylla rhwng 1981 a 2000, i brotestio yn erbyn cynlluniau ar gyfer rhyfel niwclear.

Pan oedd y Rhyfel Oer rhwng y ddau arch-bwer, yr Unol Daleithau a'r Undeb Sofietaidd, yn ei anterth, gwnaed cynlluniau ym mhencadlys NATO i leoli 96 taflegryn cruise yng Ngwersyll yr Awyrlu Brenhinol/Awyrlu'r Unol Daleithau ar Gomin Greenham. Byddai gan bob taflegryn bwer ffrwydrol 16 bom Hiroshima, a byddent dan reolaeth Awyrlu'r Unol Daleithau.

Ar y 27ain o Awst 1981, gan ddilyn traddodiad maith sy'n cynnwys gorymdeithiau Gandhi dros gyfiawnder a gorymdeithiau hawliau sifil yr UD, cerddodd y grwp Cymreig 'Menywod dros Fywyd ar y Ddaear' o Gymru i Gomin Greenham. Fe gyrhaeddon nhw ar y 5ed o Fedi 1981, i brotesio yn erbyn cynlluniau NATO. Sefydlwyd Gwersyll Heddwch Menywod ar y safle hwn ac wrth i'r brotest dyfu, ymffurfiodd gwersylloedd eraill o gwmpas y ffens. Daeth y gwersylloedd yn ffocws i brotest degau o filoedd o fenywod o bob rhan o Brydain a'r byd yn erbyn rhyfel ac arfau niwclear.

Dechreuodd y taflegrau a'u hergydion niwclear gyrraedd ar y 14eg o Dachwedd 1983 ac fe'u cadwyd mewn pydewau wedi eu hatgyfnerthu ar y Comin. Oddi yno, byddai'r taflegrau'n cael eu gyrru allan yn rheolaidd ar ymarferion tanio ar Wastadedd Salisbury. Tarfwyd ar bob un o ymarferion y confois taflegrau yn ddi-drais gan y menywod. Cawsant eu restio, eu dwyn ger bron llysoedd, a'u carcharu.

Symudwyd y taflegrau a'r ergydion o dan y Cytundeb Grymoedd Niwclear Pellter Canolig (INF) a arwyddwyd ar yr 8fed o Ragfyr 1987 gan Arlywydd yr UD, Ronald Reagan ac Arlywydd yr Undeb Sofietaidd, Mikhail Gorbachev. Mae'r rhagymadrodd i'r Cytundeb, 'Gan sylweddoli y byddai i ryfel niwclear ganlyniadau deifiol i'r holl ddynolryw . . .' yn tystio i effaith gwaith di-drais miloedd lawer o fenywod ar Gomin Greenham. O 1990-92, anfonwyd y taflegrau a lluoedd arfog yr UD yn ôl i'r UD.

Wedi 19 blynedd o brotestio di-drais parhaus yn erbyn taflegrau cruise yn gyntaf, ac yna yn erbyn y Sefydliadau Arfau Atomig yn Aldermaston a Burghfield, caeodd Gwersyll Heddwch y Menywod ar y 5ed o Fedi 2000.

Agorwyd yr Ardd Heddwch yma i'r cyhoedd ar y 5ed o Hydref 2002. Prun ai eich bod yn ymweld am funudau neu oriau, gobeithiwn y bydd yr amser a dreuliwch yma yn adnewyddu eich ysbryd. Gobeithio y byddwch yn dwyn ymaith gyda chi ysbrydoliaeth, yn ogystal ag argraff o bwer y rhai sydd heb bwer i unioni anghyfiawnderau'r byd a rannwn.

Heddwch-Namaste-Salaam-Shanti-Shalom-Paz-Mir-Paix-Ukuthula

# Clwstwr lewcemia Gogledd Cymru

**Awdurdod cancr Cymru a chynghorwyr ymbelydredd y Llywodraeth yn cyfaddef gwallau.**

Ers 1992, pan ddatgelodd Cofrestrfa Cancr Cymru (WCR) raddfeydd uchel o lewcemia mewn plant, mae effaith ymbelydredd sy'n chwythu dros y tir o Fôr Iwerddon wedi bod yn destun pryder.

Ym 1995, rhoddodd WCR ddata i'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel yn dangos yr ardaloedd lle'r oedd cleifion cancr yn byw. Dangosodd dadansoddiad fod lefel uchel o risg yn gysylltiedig â byw'n agos at fwd, lle gwyddys fod ymbelydredd yn crynhoi. Gwadwyd y canlyniad hwn gan Uned Gwybodaeth a Gwyliadwraeth Cancr Cymru (WCISU) a oedd wedi cymryd lle WCR. Ym 1999 cefnogodd y Pwyllgor Agweddau Meddygol Ymbelydredd yn yr Amgylchedd (COMARE) safbwynt WCISU.

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gan rieni a staff meddygol yn dal i awgrymu fod amledd cancr a lewcemia mewn plant ar arfordir gogledd Cymru yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cadarnhawyd hynny gan raglen ddogfen HTV a ddangosai 20-gwaith cymaint o lewcemia ymhlith plant ym Mangor, Caernarfon a Bae Colwyn rhwng 2000 a 2003, a risg uwch yn y cyffiniau hefyd. Unwaith eto, gwadodd WCISU hyn. Unwaith eto, cefnogodd COMARE hynny. Eu dadl oedd, er bod y risg yn uchel, nad oedd i'r clwstwr arwyddocâd ystadegol a gallai fod yn fater o ddamwain a hap.

Dangosodd papur cefndir gan yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel a ddosbarthwyd i ddarllenwyr *heddwch* yn gynharach eleni fod y ddadl "damwain a hap" yn anghywir; dangosai data ar gyfer 1982–1990 fod achosion 2000–2003 yn rhan o batrwm tymor-hir o risg uwch. Ar ben hynny, roedd WCISU wedi gwneud camgymeriad elfennol ac anferth wrth ddadansoddi ffigurau 1982-1990. Gan ddefnyddio dogfennau anghywir, roedden nhw wedi gor-amcangyfrif poblogaeth y tair tref o deirgwaith eu gwir faint, gan leihau'r risg ymddangosiadol. Ym mis Medi, ar ôl cyfnewid barn yn y *Journal of Public Health* ac ymchwiliad gan COMARE, syrthiodd WCISU a COMARE ar eu bai. Maent bellach yn derbyn fod y cyfraddau 5 gwaith y cyfartaledd cenedlaethol yn y cyfnod cynnar, yn cynyddu i 13 gwaith hynny yn 2000–2003, a hynny er gwaetha'r ffaith fod WCISU wedi adolygu'r data cynnar i lawr, nid am y tro cyntaf.

Ond mae COMARE a WCISU yn dal i fynnu nad oes i'r canlyniadau arwyddocâd ac nad oes oblygiadau i iechyd y cyhoedd, ar sail dadansoddi pob tref yn unigol. Meddai Dr Chris Busby, YYLI, "Rhydwythiaeth yw hyn, ac mae'n epidemoleg wael. Gan ein bod yn edrych ar effaith arfordirol, mae methodoleg wyddonol yn mynnu ein bod yn cydgyfrif y boblogaeth arfordirol. Os dilynir rhesymeg WCISU, gallent ddadansoddi'r afiechydon fesul stryd heb ganfod unrhyw ganlyniadau ystadegol arwyddocaol byth."

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwario £93,000 ar astudiaeth i ddangos fod y ddôs a geir o ymbelydredd morol yng ngogledd Cymru yn rhy isel i achosi'r gwahanol fathau o gancr. Noda'r YYLI fod awdurdodau rhyngwladol bellach yn cytuno fod 'dôs' yn ddiystyr lle mae'r gronynnau ymbelydrol yn cael eu hanadlu. Mae'r ymgyrchwyr yn gofyn i LlyC i gomisiynu cyd-astudiaeth o gancr yn yr holl ardal.

**Richard Bramhall**

**Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel:**
**e:** bramhall@llrc.org **t:** 01597 824 771 **p: Y Knoll, Parc Montpellier, Llandrindod, Powys LD1 5LW, Cymru**

chernobyl

# Anturio i Belarus

**Mae Maryna Svirkaya yn dod o Belarus ac mae'n dioddef o gancr y thyroid. Fe gwrddon ni hi am y tro cyntaf yn 2002 pan ddaeth i Aberystwyth ar wyliau y talwyd amdano gan Broject Plant Chernobyl.**

**Fe gadwon ni mewn cysylltiad wedi iddi hi fynd adre, ac yna, yn 2004, cafodd ei hymweliad olaf yma drwy law'r elusen ac arhosodd yn ein cartref am bedair wythnos. Yn ystod yr arhosiad hwnnw, gofynnodd i ni unwaith eto i ymweld â'i chartref yn Belarus. Yn 2006 penderfynodd fy ngwraig Sandra a minnau i dderbyn ei gwahoddiad.**

Aethom yno mewn ffordd anghonfensiynol drwy hedfan i Warsaw, ac theithio oddi yno ar dren i Teresapol yr ochr Bwylaidd i'r ffin. Byddem yn cwrdd â Maryna yn Brest, dros y ffin yn Belarus.

Pan aethom i'r tren oedd yn mynd â ni dros y ffin, daeth heddlu milwrol Belarwsaidd i gwrdd â ni ac edrych ar ein 'papurau'. Wrthi'r tren ddechrau symud, gwelsom lori'n llawn rhagor o heddlu milwrol yn ein dilyn. Pan groesodd y tren y ffin, daethom i stop a daeth pum heddwas milwrol arall allan o adeilad a dod ar y tren. Fe aethom nhw â'n pasbortau a rhoi dogfen i ni ei llenwi gyda chwestiynau yn y Rwsieg. Yn ffodus, gallodd cyd-deithiwr ein helpu drwy gyfieithu'r cwestiynau. Ar ôl awr, rhygnodd y tren i mewn i Brest lle cawsom ein hebrwng i ystafell y swyddogion y doll. Astudiodd swyddog ein dogfennau a sylweddolais na allai ddarllen ein hatebion Saesneg. Gallai hyn fod wedi achosi mwy o oedi, ond chwifiodd ei law i gyfeiriad drws – a'r ochr arall iddo, roedd Maryna a'i theulu. Dyma yrru'r trigain milltit i dref Maryna, Beruoza, sydd wedi ei ffurfio'n bennaf o flociau tri-llawr o fflatiau a adeiladwyd gan garcharorion rhyfel Almaenaidd ym 1946-7.

Yn ystod ein arhosiad, ymwelsom â Minsk a Brest. Gallai'r dinasoedd hyn, o ran ymddangosiad allanol, fod unrhyw le yn y byd, ond mae llawer o dlodi, ac mae'n waeth yn y pentrefi. Yno, mae'r bobl yn dibynnu'n llwyr ar yr hyn y gellir ei dyfu – dydy enillion ddim yn ddigon i dalu am fwyd. Tatws, tomatos, ciwcymbrau a madarch gwyllt yw'r prif bethau a dyfir, a dyna'r prif fwydydd. Mae digonedd o ffrwythau hefyd – afalau, gellyg a cheirios. Mae llawer o'r bwydydd hyn yn cael eu piclo a'u cadw ar gyfer y gaeafau caled dros ben. Cytiau pren 25 troedfedd sgwâr o faint yw'r cartrefi yn y pentrefi, heb ddwr tap a rhai ohonyn nhw heb drydan. Mae gan bob un ffwrn sy'n llosgi coed ar gyfer coginio a gwresogi. Roedd ffarwelio'n achlysur trist; roedd cymaint o heddlu o gwmpas yr orsaf nes i ni ganu'n iach i Maryna a'i theulu o hirbell. Fe deithion ni o Brest ar dren cysgu a aeth â ni yn syth i Warsaw. Byddem yn fodlon mynd eto – ond ddim ar dren, efallai!

**Stephen Howard**

## Project Plant Chernobyl

Yn yr haf, mae llwch yn Belarus, Gorllewin Rwsia a Gogledd Wcraen yn achosi i'r lefelau ymbelydredd godi, ac mae angen i gymaint o blant ag sy'n bosibl adael eu mamwlad lygredig am ychydig wythnosau o awyr iach a bwyd glân. Mae meddygon yn Belarus yn dweud fod hyn yn atgyfnerthu system imiwnedd y plant am ddwy flynedd o leiaf, sy'n eu helpu i wrthsefyll salwch difrifol neu i wella ohono. Mae mis mewn ardal heb lygredd hefyd yn lleihau'n sylweddol lefel y cesiwm ymbelydrol sydd wedi crynhoi yng nghorff y plentyn. Bob haf, bydd Project Plant Chernobyl yn dod â phlant i Gymru am wyliau adferol. Os hoffech chwarae rhan, neu os gallech gynnig llety i'r plant, da chi, cysylltwch â'ch grwp lleol.

**Grwpiau Project yng Nghymru**

**Aberystwyth**
Galina Latypova 01974 241 079
galina@latypova.fsnet.co.uk

**Caerffili**
Debbie Batten 07740 051762 daustin@Worldmark.com

**Caerfyrddin**
Jean Williams 01267 275 222 huw.darog@virgin.net

**Llandinam a'r Drenewydd**
Roger Locke 01686 624 299 RogerLocke78@aol.com

# Chernobyl – damwain niwclear waetha'r byd

*"Chernobyl. Rhyfel yr holl ryfeloedd. Does dim iachawdwriaeth i'r ddynolryw unrhyw le. Ddim ar y ddaear, ddim yn y dyfroedd, ddim yn yr awyr."*
Pentrefwr yn Belyibereg, Gomel

Ar y 26ain o Ebrill 1986, achosodd ffrwydrad yn Adweithydd Rhif 4 yng Ngorsaf Ynni Niwclear Chernobyl yr hyn mae'r Cenhedloedd Unedig wedi ei ddisgrifio fel "y trychineb amgylcheddol mwyaf yn hanes y ddynolryw".

Chwythwyd allan 190 tunnell o wraniwm a graffid ymbelydrol iawn, a chwydwyd deunydd ymbelydrol i uchder o fwy na chilometr i'r atmosffer. Symudodd y cwmwl ymbelydrol o'r adweithydd llosg i'r gogledd ac yna i'r gorllewin ac ymlaen i mewn i Wlad Pwyl a Sweden, lle cafodd ei ddarganfod am y tro cyntaf, gan gario Iodin 131 ymbelydrol uwchben miliynau o bobl ddiarwybod. Ym mis Ebrill 2006, mae 359 o ffermydd ac 180,000 o ddefaid [yng Nghymru] yn dal i fod dan gyfyngiadau swyddogol mewn ardaloedd lle gallai'r lefelau o lygredd mewn cig defaid beryglu iechyd y cyhoedd.

Yn y rhanbarthau a ddioddefodd fwyaf, sef Belarus, Gorllewin Rwsia a Gogledd Wcraen, mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif yr effeithiwyd ar hyd at 9 miliwn o bobl, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan yr ymbelydredd. Derbyniodd y bobl yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnyn nhw y ddogn fwyaf o ymbelydredd yn hanes yr oes atomig, ac ni welir canlyniadau llawn hyn am o leiaf hanner canrif arall. Mae cnydau – grawnfwydydd, ffrwythau a llysiau – a dyfir ar dir llygredig yn ail-lygru'r gadwyn fwyd.

## Lobïo'r Senedd 28ain Tachwedd 2006

Gwrthwynebwch Gynnig Llywodraeth San Steffan fod gan 'ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd ynni'r DU yn y dyfodol'!

Diben y lobi yma yw gofyn i ASau fynnu dadl lawn yn y Senedd ar y mater yma, ac i'w hannog i wrthwynebu'r cynlluniau i adeiladu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pwer niwclear ym Mhrydain. Mae Pwer Niwclear Dim Diolch wedi gwahodd nifer o arbenigwyr yn y maes ynni i siarad mewn cyfarfod lobïwyr ac ASau yn Portcullis House (drws nesaf i Dai'r Senedd) rhwng 1 a 5pm. Gellir lobïo ASau unigol neu drwy drefniant yn ystod y cyfnod yma neu wedyn. Gallwch chi ymuno yn y cyfle yma i ddod â dinasyddion pryderus, arbenigwyr, a chynrychiolwyr etholedig ynghyd i ddadlau achos grymus yn erbyn datblygu gorsafoedd niwclear newydd.

Mae papur gwybodaeth cefndir llawn ar gael.

**Cysylltwch â Pwer Niwclear Dim Diolch**
**e:** info@nuclearpowernothanks.org
**t: 01508 550 446**
www.nuclearpowernothanks.org
**p: Nuclear Power No Thanks, c/o The Greenhouse Trust, 42-46 Bethel Street, Norwich NR2 1NR**

## ***RHYBUDD AELODAETH***

Ar y 1[af] o Fehefin, cynyddwyd y tâl aelodaeth i £30, £20, £15 neu £10 (ceir y manylion ar y ffurflen aelodaeth amgaeëdig). Rydym wedi ymatal rhag cynyddu'r cyfraddau aelodaeth ers blynyddoedd, ond aeth yn angenrheidiol gwneud er mwyn talu costau cynyddol cynhyrchu a dosbarthu Heddwch, AC er mwyn i ni allu bwrw ymlaen â'n gweithgareddau lobïo ac ymgyrchu hanfodol ar eich rhan.

Mae rhyw ddau draeaon o'r aelodaeth yn talu drwy ddebyd uniongyrchol misol neu flynyddol. Byddem yn hynod ddiolchgar pe gallai'r rheini ohonoch sy'n talu yn y modd yma ddefnyddio'r ffurflen amgaeëdig, a newid y cyfarwyddyd i'ch banc i'r hyn y dylech fod yn ei dalu. Bydd hyn yn arbed cryn dipyn i CND Cymru o ran amser ac arian. DIOLCH AM EICH CYDWEITHREDIAD A'CH CEFNOGAETH GYSON.

## dyddiadau dyddiadur

**Tachwedd**

**11[th] Menywod mewn Du y Fenni - Gwylnos** 11am – 12 hanner dydd. t. 01873 855 760. Y Stryd Fawr, gyferbyn â siop Ottakers.

**13[eg] - 14[eg] Faslane 365 De a Chanolbarth Cymru** mwy o wybodaeth: y De t: 02920 481 791 e: martin@mfitton.wanadoo.co.uk Canolbarth t: 01974 831 575 e: coney@gn.apc.org

**15[fed] – 16[eg] Faslane 365 Gogledd Cymru** t: 01248 490 715 e: phil_steele@btinternet.com

**17 [eg] -18 [fed] Cyfarfod Cymdeithas y Cymod**, Nant Gwrtheyrn, Gwynedd Manylion: post@cymdeithasycymod.org.uk

**18[fed] CYFARFOD BLYNYDDOL CND CYMRU** Y Deml Heddwch, Caerdydd 11.00a.m. I'w ddilyn gan **GYFARFOD CYHOEDDUS** gyda **KATE HUDSON, Cadeirydd CND Prydeinig:** 'Yr Ymgyrch i Atal Olynydd i Trident' Y Deml Heddwch, 2.00pm. Croeso i bawb

**18 [fed] Llundain. Diweddu Goresgyniad Irac: Cyfarfod Strategaeth** ar gyfer gweithredwyr, er mwyn rhannu profiadau ymgyrchu a thrafod syniadau a chynigion ar gyfer gweithredu. iraqfocus@riseup.net www.iraqoccupationfocus.org.uk

**22[ain] Bangor, Cyfarfod Cyhoeddus, Siaradwr: Craig Murray**, ymgyrchydd dros hawliau dynol a chyn-lysgennad i Uzbekistan. **Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau, Prifysgol Bangor, 8pm.**

**26 [ain] - Rhagfyr 2[il] Abertawe. Gwyl fideo ryngwladol 'Beyond TV'** Trafodaethau a ffilmiau ynglyn â newid hinsawdd, olew'n brigo, priodas lesbaidd, Palesteina, gweithredu gwrth-niwclear a llawer iawn mwy www.undercurrents.org/beyondtv

**Rhagfyr**

**2[il] Menywod mewn Du Caerdydd – Gwylnos** 12.00 – 1.00pm, Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd. Gwylnos fisol, y Sadwrn cyntaf o bob mis. e. sian@derwen.demon.co.uk t. 0780 882 9756

**2[il] Gwrthdystiad yn RAF Brize Norton** (swydd Rydychen). Galw am ddod â lluoedd Prydeinig adref o Irac ar unwaith. Mae RAF Brize Norton hefyd yn cael ei ddefnyddio fel canolfan cyflenwi tanwydd i awyrennau milwrol Americanaidd sy'n cludo cadoffer rhwng canolfan yr awyrlu yn Kelly, UDA a maes awyr Ben Gurion yn Tel Aviv. Ymgynnull am hanner dydd ar gyfer 1.00 pm www.swindonstopwar.org.uk/ e: swindon_stopwar@yahoo.co.uk t: 01793 513 632


**11[eg] Bangor. Anfon Cardiau Nadolig ar Garcharorion Cydwybod** Ty Cwrdd y Cyfeillion, Stryd y Deon, Bangor, 7.30pm **Amnest Rhyngwladol Glannau Menai.**

**Ionawr**

**6[ed] Menywod mewn Du Caerdydd – Gwylnos** 12.00 – 1.00pm, Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd. Gwylnos fisol, y Sadwrn cyntaf o bob mis. e. sian@derwen.demon.co.uk t. 0780 882 9756


**27[th] Cyfarfod Cyhoeddus, Dim Olynydd i Trident!** Siaradwyr: Bruce Kent Canolfan Fethodistaidd Sant Ioan, Llandudno, 2-4pm. Cysyllter â: Grwp Heddwch Conwy 01492 544 353

**Cyngor CND Cymru** cyslltwch CND Cymru am ragor o gwybodaeth.



## Cyfarfod Blynyddol CND Cymru 2006
## Tachwedd 18[fed] 11.00 am

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol CND Cymru eleni yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Croeso i bob aelod a chynrychiolwyr grwpiau cysylltiedig. Da chi, dewch â brechdanau ac arhoswch ar gyfer digwyddiad y prynhawn (gweler isod).



## Cyfarfod cyhoeddus gyda Kate Hudson
## Tachwedd 18[fed] 2pm

Ar ôl Cyfarfod Blynyddol CND Cymru ac ar ôl cinio, bydd Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig, yn siarad am yr ymgyrch i Atal Olynydd i Trident. Mae hwn yn gyfarfod agored ac mae croeso i bawb, da chi, dewch i wrando a dewch â ffrind gyda chi!

Mwy o wybodaeth gan CND Cymru

## Ymunwch â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear!

**Fu 'na 'rioed amser pwysicach i fod yn rhan o lais rheswm a phwyll yng Nghymru.**

**Ymunwch ag CND Cymru a chefnogwch y mudiad ymgyrchu di-blaid wleidyddol mwyaf ar gyfer pobl gyffredin yn y wlad.**

**Mae CND Cymru yn cwmpasu grwpiau ac unigolion a all gyfrangi ar ba lefel a fynnant – o ddarllen 'heddwch' a thrafod materion gyda ffrindiau a chydweithwyr, sgrifennu llythyron, mynd ar wylnosau tawel a phrotestiadau, hyd at fynd ati i ddiarfogi taflegryn yn ddi-drais!**

**Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu byd cynaliadwy wedi ei reoli gan heddwch a chyfiawnder gwirioneddol. Gadewch i ni wneud arfau dinistr torfol – a'r esgusodion amdanynt – yn rhywbeth o'r gorffennol. Pobl gyffredin yw'r arch-bwer sy'n cael ei anwybyddu a'i ddiystyru yn y byd!**

**Cyfraddau Aelodau:**
£30 pâr cyflogedig; £20 oedolyn; £15 digyflog; £10 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr.
Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru'.

**danfonwch i:**
Monica Bradley, Ysgrifennydd Aelodaeth, CND Cymru, 7 Brook Terrace, Mochdre, Y Drenewydd SY16 4JG Ffôn: (01686) 626 350

## Llythyru â Lloegr

**Mae dysgwraig sy'n byw yn Stockport, Lloegr yn chwilio am gyfaill sgrifennu/ffonio sy'n siarad/dysgu Cymraeg er mwyn ymarfer ei Chymraeg. Os gallwch chi helpu, da chi, ffoniwch hi ar: 0161 429 6146**


## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01495) 773 180
heddwcheditor@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
Brian.Jones@nptc.ac.uk

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

John Cox
(01495) 774 495

**aelodaeth & aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace,
Mochdre, Drenewydd SY16 4JG (01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831575

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard,
Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF (01495) 773 180
jill@cndcymru.org
heddwcheditor@cndcymru.org